

Dadansoddwch gyfraniad UN o'r traddodiadau crefyddol/ysbrydol a astudiwyd yn ystod y modwl at lunio moeseg amgylcheddol bositif

Erbyn y ganrif yma, mae trafodaethau am yr argyfwng amgylcheddol yn anodd iawn i'w ddianc wrtho. Gyda chymunedau ar draws y byd yn rhoi pwyslais ar fyw bywyd mewn ffordd sydd yn fwy 'wyrdd' mae ymatebion crefyddol tuag at yr argyfwng yma yn fwy pwysig nag erioed. Wrth i bobl ceisio darganfod atebion am sut i ddatrys y broblem yma, maent yn troi i ffynonellau o ddoethineb fel llyfrau sanctaidd am atebion posib. Trwy ddehongli dysgeidiaethau crefyddol gwahanol, gallwch ddarganfod ymatebion sydd yn cytuno ac anghytuno sydd yn cyfrannu at lunio moeseg amgylcheddol bositif. Ar yr un pryd, mae'n bosib dadlau fod rhai crefyddau yn cynnig fwy nag eraill wrth lunio moeseg amgylcheddol bositif. Un gred sydd yn cynnig safbwyntiau diddorol am moeseg amgylcheddol bositif ydy Bwdhaeth. Fel un o brif grefyddau'r byd, mae Bwdhaeth yn cael i ymarfer ardraws gydag amrywiaethau. Mae'n amlwg i weld fod ei phoblogaeth yn y Gorllewin ond yn cynyddu ers y degawdau diwethaf. Un rheswm tu ôl y twf yn boblogaeth y grefydd yma ydy ei golwg o'r byd a sut i fyw ynddo. Serch hynny, mae'r twf yn ddilynwyr Bwdhaeth yn y Gorllewin yn weddol newydd ac yn parhau i ddatblygu, yn union fel y trafodaethau am ddatrys yr argyfwng ecolegol¹. Nod y traethawd yma yw dadansoddi cyfraniad Bwdhaidd tuag at lunio moeseg amgylcheddol bositif trwy edrych ar ddysgeidiaethau a dylanwad y byd cyfoes.

Cyn symud ymlaen at ddadleuon mwy cyfoes, maen pwysig deall yr hyn oedd ar gael i Fwdhyddion yn y cyfnodau cynnar gan fod hyn wedi cael effaith ar datblygiadau eu moeseg amgylcheddol erbyn heddiw. Mae dysgeidiaethau Bwdhaidd cynnar yn cynnig y potensial o etifeddiaethau pwysig iawn am eu hagwedd at lunio moeseg amgylcheddol bositif. Un ddysgeidiaeth gynnar allweddol i'w ystyried ydy 'ahimsa' sydd yn golygu 'dim niwed'. Mae'r ddysgeidiaeth yma yn gwreiddio o'r hen gred Hindŵaidd neu Jain². Mae'r ddysgeidiaeth yma yn bwysig wrth ystyried cyfraniad Bwdhaeth at lunio moeseg amgylcheddol bositif oherwydd y pwyslais mae Bwdhyddion yn rhoi ar beidio niweidio unrhyw beth. Os ydy Bwdhyddion yn niweidio'r byd ar bwrpas gallwch ddadlau ei fod yn mynd yn erbyn 'ahimsa'. Mae'n hefyd bosib i ddadlau fod gan y gweithredai negyddol yma'r potensial y cynhyrchu karma gwael. Bydd hyn yn rhwystro'r Bwdhydd rhag cyrraedd ei nod

¹ Stephanie Kaza, "The Greening Of Buddhism: Promise And Perils", *The Oxford Handbook Of Religion And Ecology*, 2009 <<https://www-oxfordhandbooks-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/oxfordhb/9780195178722.001.0001/oxfordhb-9780195178722-e-8#oxfordhb-9780195178722-bibItem-114>> [Agor 24 Medi 2020].

² Kaza, 2009.

terfynol sef goleuedigaeth a dianc rhag samsara. Mae'r dadl yma yn fwy wan gan ei fod yn cael i ddadlau gan nifer o ysgolheigion, bydd hyn yn cael i trafod ym mellach yn y traethawd.

Mae'r ysgol Therefada yn cynnig amrywiaeth o ddysgeidiaethau sydd yn ychwanegu at gyfraniad Bwdhaeth at lunio moeseg amgylcheddol bositif. Mae'r Pum Argymhelliad yn gyfres o awgrymiadau dylai Fwdhyddion osgoi mynd yn erbyn. Pwrpas y Pum Argymhelliad yw helpu i Fwdhyddion gwneud penderfyniadau a byw bywyd moesol cywir. Y brif neges sydd yn gwreiddio o'r ddysgeidiaeth yma yw dylai Fwdhyddion osgoi niwed³. Mae'r argymhellion yma hefyd yn cynnig awdurdod syml i'r Bwdhyddion gan annog nhw i ymarfer cydymdeimlad a'r byd o'n hamgylch ac i werthfawrogi popeth sydd yna. Gallwch ddadlau gall hyn cael i weld fel dysgeidiaeth sydd yn annog moeseg amgylcheddol bositif gan ei fod yn pwysleisio heddwch, chydymdeimlad, a gwerthfawrogiad o'r byd. Mae'r foeseg yma hefyd yn berthnasol i foeseg yn gyffredinol a gall Bwdhyddion a phobol anghrefyddol deall a dilyn. Y fwyaf o bobol sydd yn gallu deall a dilyn y foeseg, y gwell bydd y canlyniadau am yr amgylchedd.

Mae Bwdhyddion yn rhoi pwyslais clir ar foesoldeb a'r pwysigrwydd o wneud y penderfyniadau cywir trwy dangos cydymdeimlad a gwerthfawrogiad. Mae Bwdhyddion yn gweld y byd natur fel mwy na'r byd tu allan yn unig. Maent yn dangos gwerthfawrogiad a pharch ato. Try gwerthfawrogi a dangos parch at y byd naturiol mae hyn yn arwain at gyfrannu at lunio moeseg amgylcheddol bositif. Mae'r dadl ym fwy gryf oherwydd gweler fod Donald K. Swearer⁴ yn cefnogi wrth esbonio fod hanes creu'r Bwdhyddion yn sôn am y byd naturiol yn parhau yn ôl y drefn naturiol a sut wnaeth bodau dynol dinistrio'r drefn yma. Mae Swearer yn esbonio fod Bwdhyddion yn rhoi pwyslais ar y drefn naturiol fel rhywbeth moesol. Er bod y drefn naturiol yn newid yn gyson, mae penderfyniadau moesol yn cael effaith ar y newidiadau. Mae hyn yn gyferbyniad llwyr i stori creu'r Cristnogion sydd yn dangos sut mae bodau dynol wedi cymryd dros y ddaear trwy drachwant. Mae penderfyniadau moesol yn bwysig i gredinwyr crefyddol ac i bobol yn gyffredinol felly mae'r meddylfryd yma yn ychwanegu at lunio moeseg amgylcheddol positif gan y Bwdhyddion.

Mae nifer fawr o ddysgeidiaethau Bwdhaidd wedi seilio ar brofiadau bywyd cynnar y Bwdha. Yn dilyn bywyd llawn pleser a moethusrwydd wnaeth Siddartha Gottama tystio'r dioddefaint oedd yn

³ Stephanie Kaza, *Hooked!* (Boston, Mass.: Shambhala, 2005), tud. 225-236.

⁴ Donald K. Swearer, *Buddhism And Ecology: Challenge And Promise* (Center for Respect of Life and Environment, 1998), tud. 19-22.

digwydd tu allan i'w fywyd yn y palas. Roedd hyn yn sioc enfawr iddo a benderfynodd dianc rhag ei fywyd moethus ac i fynd i'r anialwch i fyw fel asetig. Yn dilyn cyfnod fel asetig roedd Siddartha dal yn anhapus a benderfynodd seilio 'y ffordd ganol'. Roedd y ffordd yma o fyw yn llai eithafol na bywyd yn yr anialwch, ond hefyd yn llawer llai moethus a grand na bywyd yn y palas. Er bod ychydig o reolau mwy llym i Fynachod a Lleianod i gymharu gyda'r lleygwyr, mae dysgeidiaethau'r Bwdha yn pwysleisio fod pob Bwdhydd i fod i fyw bywyd o gymedroldeb gan osgoi bywyd rhy foethus a bywyd heb unrhyw beth o gwbl⁵. Yn debyg i rai o'r dysgeidiaethau sydd yn cael eu trafod yn y traethawd yma nad yw'r ffordd ganol yn sôn yn uniongyrchol am yr amgylchedd o gwbl, ond mae'r syniad o fyw yn ôl 'y ffordd ganol' yn gallu cynnig llawer tuag at foeseg amgylcheddol positif. Mae'r neges yma yn ganolog i ddysgeidiaethau cynnar y Bwdha lle buodd yn teithio ac yn lledaenu ei dysgeidiaeth, ac maen neges digon syml i'w ddilyn. Er bod y ddadl yma i weld yn fwy wan nag eraill gan does dim llawer o dystiolaeth i gefnogi hyd yma fel cyfraniad at moeseg amgylcheddol, mae'r dystiolaeth o hanes Bwdhaidd yn cefnogi fod 'y ffordd ganol' yn allweddol i Fwdhyddion.

Mae yna lawer o ddysgeidiaethau yn ffocysu o amgylch y byd natur. Roedd y byd natur yn ganolog i fywyd y Bwdha ei hun. Yn hanes diddorol iawn gannwyd o dan goeden. Yn dilyn y Pedwar Golygfa bu'r Bwdha yn gwrthod holl bleserau bywyd i fyw yn yr anialwch a byw yng nghanol y byd natur. Yn ogystal â hyn . Mae'r enghreifftiau yma yna dangos y statws a rhoddwyd i'r byd natur gan Fwdhyddion. Mae hyn yn dangos cyfraniad clir gan y Bwdhyddion cynnar tuag at lunio moeseg amgylcheddol positif.

Mae'r ffordd o fyw fel aelodau'r Sangha yn un cynaliadwy iawn gan ei fod yn ffocysu ar rhoi ac ailgylchu. Yng nghymunedau Bwdhaidd mae'r Mynachod yn dibynnu ar y lleygwyr yn y gymuned er mwyn derbyn dillad, bwyd, a moddion. Yn ogystal â hyn mae Offeiriaid, Mynachod ac Athrawon Bwdhaidd yn gallu chwarae rôl enfawr yn hybu llunio moeseg amgylcheddol positif. Trafododd Duncan Williams Offeiriad a wnaeth annog ei Sangha cyfan i lwytho paneli solar er mwyn lleihau effeithiau cynhesu byd eang. Mae'r enghraifft yma yn cefnogi cyfraniad Bwdhaidd tuag at lunio moeseg amgylcheddol positif. Pe bai fwy o Fwdhyddion (neu bobol yn gyffredinol) yn gwneud hyn maen amlwg fydd hyn yn cael effaith positif ar yr amgylchedd sydd yn dangos fod y pwynt yma yn

⁵ Daisaku Ikeda, *The Living Buddha: An Interpretive Biography* (Santa Monica: Middle Way Press, 2008), tud. 117.

dangos sut mae Bwdhaeth yn gallu llunio moeseg amgylcheddol positif. Mae'r ddadl yma yn fwy gwan oherwydd diffyg tystiolaeth wrth ysgolheigion.

Er bod y dysgeidiaethau yma yn edrych fel eu bod yn atgyfnerthu moeseg amgylcheddol positif, maen pwysig i ystyried rôl a swyddogaeth wreiddiol y dysgeidiaethau. Er eu bod yn edrych fel petai eu bod yn cyfrannu at lunio moeseg amgylcheddol positif, maen posib dadlau taw nid hyn oedd eu pwrpas gwreiddiol. Mae hyn yn feirniadaeth sydd wedi cael i gefnogi gan amrywiaeth o ysgolheigion Bwdhaidd megis Ruben L. F. Habito, Schmithausen yn ogystal ag eraill.

Gan ystyried fod Bwdhaeth dal i fod yn gymharol newydd i'r Gorllewin, maen bosib i ddadlau ein bod yn edrych ar a dehongli'r dysgeidiaethau yn wahanol i grefyddau sydd yn fwy traddodiadol. Un enghraifft ydy Cristnogaeth. Rydym yn dysgu am Gristnogaeth o oedran ifanc ac rydym yn clywed yr un hanes yn cael ei ailadrodd. Gan fod Bwdhaeth yn fwy 'newydd ei ni rydym yn gallu edrych arno gyda llygaid newydd a'i ddehongli mewn ffordd wahanol sydd yn fwy addas i'r byd modern a'r fath o foeseg neu awdurdod sydd angen ar y pryd. Gall hyn cyfrannu at foeseg amgylcheddol positif gan ein bod yn rhoi cyfle i ni i feddwl yn fwy annibynnol am yr atebion rydym yn ceisio darganfod. Ond, ar y llaw arall amen bosib i ddadlau gall hyn arwain at gam-ddehongli a chwilio am ymatebion sydd ddim wir yn bodoli.

Beirniadaeth arall am etifeddiaeth moeseg amgylcheddol positif yw bod pob crefydd yn unigryw, ac maen anodd i ddadansoddi etifeddiaeth rhywbeth sydd yn fyd eang pan fod cymaint o wahaniaethau. Maen amhosib i ddarganfod ymateb sydd yn addas i fod cred neu grefydd gan fod ddim un grefydd enfawr yn bodoli, ond nifer o grefyddau sydd yn cyfrannu at y cred 'crefyddol'. Mae gwaith Ruben L. F. Habito⁶ yn cefnogi'r ddadl yma trwy dangos ei deimladau pesimistaidd tuag at elfennau 'gwyrdd' Bwdhaeth yn glir. Yn ôl ef mae'r byd yng nghanol cyfnod o 'dukkha bydeang' gyda salwch, rhyfel a thlodi ar draws y byd. Mae Habito yn sôn fod y traddodiad Mahayana yn cynnig agwedd fwy positif tuag at foeseg amgylcheddol ond mae'r gred yn gyffredinol a'r pwyslais mae'n rhoi ar oleuedigaeth bersonol yn herio ei bosibilrwydd o fod yn grefydd 'wyrdd'.

Mae'r cysyniad o oleuedigaeth a dianc rhag y byd o ddioddefaint (dukkha) yn cymryd i ffwrdd o etifeddiaeth ecolegol positif gan ei fod yn rhoi pwyslais ar holl agweddau negyddol y byd ffisegol.

⁶ Ruben L. F. Habito, "Environment Or Earth Sangha: Buddhist Perspectives On Our Global Ecological Well-Being", *Contemporary Buddhism*, 8.2 (2007), 131-147 <<https://doi.org/10.1080/14639940701636117>>.

Maent hefyd yn pwysleisio fod y byd yma ond yn cael ei weld fel rhan o'r daith tuag at oleuedigaeth, sydd yn tanseilio statws y byd a'r cyfrifoldeb i ddiogelu hi⁷. Yn amlwg maen amhosib i'r pwynt yma cyfrannu at lunio moeseg amgylcheddol positif. Mae'r ysgolhaig Bwdhaidd Schmithausen⁸ yn sôn am sut mae Bwdhyddion o gyfnod y testunau yn ceisio dianc rhag y byd naturiol a'r dioddefaint sydd ym mhob man. Mae Schmithausen hefyd yn sôn yn ei waith am sut mae unrhyw destunau o Fwdhaeth gynnar yn hollol negyddol am yr amgylchedd. Yn ôl ef mae pobol yn edrych yn ôl at y ffynonellau cynnar yma gyda golwg rhy garedig. Mae'r dystiolaeth trafodwyd uchod yn anghytuno gyda hyn i raddau trwy dangos fod yna ffordd fwy cadarnhaol o ddehongli etifeddiaeth amgylcheddol positif. Er maen bosib i gytuno fod rhai testunau yn adlewyrchu neges amgylcheddol gryfach nag eraill er enghraifft y Llwybr Wythblyg (positif) a Swtra Galon (negyddol) Tra bod rhaid cydnabod y pwysigrwydd o gyd-destun a deall fod dehongliadau gwahanol o'r un testunau cysegredig yn gallu fod yn her mae'n anodd dweud fod Bwdhaeth yn mynd yn gyfan yn erbyn llunio moeseg amgylcheddol positif.

Yn draddodiadol, i lawer mae dysgeidiaethau Bwdhaeth am ddioddefaint a'r dysgeidiaethau am sut mae popeth yn newid a bod ddim yn aros yn gyson am byth yn cael i weld i fod yn besimistaidd iawn. I rai, mae Bwdhyddion yn treillio eu bywydau yn ceisio dianc rhag y byd amherffaith yma sydd yn llawn dioddefaint. Bydd rhai hefyd yn dadlau fod Bwdhyddion yn ffocysu ar yr hunan a llwyddiant personol i ddianc rhag samsara a chyrraedd Nirvana, ac felly does dim pwrpas edrych ar ôl y byd. Mae John Holder⁹ yn cynnig beirniadaeth ddiddorol i'r pwynt yma gan ddweud fod Bwdhaeth yn dysgu cydymdeimlad a bwriad cyffredinol i sicrhau fod bodau dynol a'r byd naturiol yn cael i warchod a gwerthfawrogi gan fod bodau dynol yn dibynnu ar y byd i gynnal bywyd tan iddynt gyrraedd goleuedigaeth. Yn wahanol i ran gyntaf y ddadl bydd hyn yn cyfrannu at foeseg amgylcheddol positif.

Mae yn Donald K. Swearer nodi er bod Bwdhaeth wedi newid dros y 2500 o flynyddoedd diwethaf, a bod nifer o grwpiau gwahanol wedi datblygu o ganlyniad i hyn mae yna dal elfennau cyffredin. Yn gyffredinol mae Bwdhyddion yn gweld fod sawl haen wahanol y byd yn cysylltu gyda'i gilydd

⁷ Habito, "Environment Or Earth Sangha: Buddhist Perspectives On Our Global Ecological Well-Being", 131-147.

⁸ Lambert Schmithausen, "The Early Buddhist Tradition And Ecological Ethics", *Journal Of Buddhist Ethics*, 4 (1997), 1-42.

⁹ John J. Holder, "A Suffering (But Not Irreparable) Nature: Environmental Ethics From The Perspective Of Early Buddhism", *Contemporary Buddhism*, 8.2 (2007), 113-130 <<https://doi.org/10.1080/14639940701636091>>.

mewn pedair ffordd wahanol sef yn foesol, yn gosmolegol, yn rhesymegol ac yn ontolegol¹⁰. Maen clir i weld fod y byd yn chwarae rôl yn foeseg Bwdhaeth. Maen posib i ddadlau er nad yw pob dysgeidiaeth Bwdhaeth yn sôn am edrych ar ôl y blaned, mae dioddefaint yn chwarae rôl allweddol. Mae Bwdhyddion yn ceisio lleihau dioddefaint, trwy leihau dioddefaint maen nhw'n edrych ar ôl y blaned mewn ffordd unigryw iawn. Mae gwaith John J. Holder yn atgyfnerthu'r ddadl yma wrth iddo esbonio fod Bwdhyddion yn ceisio lleihau dioddefaint popeth yn y byd naturiol¹¹. Er taw nid moeseg amgylcheddol oedd ei rôl gyntaf, mae sicrhau llai o ddioddefaint i bopeth sydd yn rhan o'r byd naturiol yn gallu cyfrannu at etifeddiaeth bositif o foeseg amgylcheddol.

Wrth symud i ffwrdd o etifeddiaeth dysgeidiaethau yn unig, mae'r dadleuon nesaf yn trafod apel Bwdhaeth at y gymdeithas. Erbyn heddiw, mae Bwdhaeth yn apelio at y gymdeithas grefyddol a'r gymdeithas seciwlar oherwydd ei gweledigaeth a diffyg cred mewn Duw 'traddodiadol'. Mae ei safbwyntiau ar heddwch a meddylgarwch yn apelio at bobl y Gorllewin ac mae'n hawdd gweld sut mae dysgeidiaethau Bwdhaidd wedi teithio ar draws y byd am wahanol resymau. Mae'r Dalai Lama yn cael ei weld fel ffigwr o ddoethineb tu fewn a thu allan o'r gred Fwdhaidd ac mae ei gyfraniad ef i'r ymatebion ynglŷn â chynhesu byd eang a newid hinsawdd yn cyrraedd miliynau o bobol. Mae gan y Dalai Lama 1.7 miliwn o ddilynwyr ar Instagram yn unig. Gallwch ddadlau fod ei boblogrwydd a'i phlatform ar y gwefannau cymdeithasol heb ei grefydd yn cynnig cyfle iddo annog fwy o bobol i ymarfer a lledaenu moeseg amgylcheddol bositif. Mae hyn yn ddadl fwy gwan oherwydd mae'n rhoi pwyslais ar y Dalai Lama yn bersonol, ond gan ystyried y gwaith mae ef yn gwneud i ymgyrchu dros yr amgylchedd gall hyn ond fod yn rhywbeth gadanhaol wrth lunio moeseg amgylcheddol positif.

Felly i grynhoi, mae'r dadleuon uchod yn dangos fod yna potensial enfawr gan Fwdhaeth i lunio moeseg amgylcheddol positif. Mae'r dysgeidiaethau cynnar yn dangos fod gan Fwdhaeth cydymdeimlad a'r ddaear a'r byd natur sydd yn hollbwysig wrth ddatblygu moeseg amgylcheddol positif. Yn ogystal â hyn mae Bwdhaeth yn cynnig safbwyntiau a ffordd o fyw unigryw iawn, yn enwedig i gymharu â'r credoau Gorllewinol traddodiadol. Serch hynny, maen anodd i ymarfer y dysgeidiaethau yma pob tro, yn enwedig os nad ydych yn Fwdhydd eich hun. Un enghraifft o hyn

¹⁰ Swearer, 1998, tud. 19-22.

¹¹ Holder, "A Suffering (But Not Irreparable) Nature: Environmental Ethics From The Perspective Of Early Buddhism", tud.113-130.

yw byw fel aelodau'r Sangha. Mae dadleuon Simon P. James a David E. Cooper¹² yn dweud ei fod yn rhy gynnar i alw Bwdhaeth yn grefydd 'wyrdd'. Mae yna digon o ddadleuon i ddangos yn anffodus does dim pob agwedd o Fwdhaeth yn bositif tuag at yr amgylchedd yn bwrpasol. Serch hynny mae dylanwad a phoblogaeth Bwdhaeth yn rhoi'r potensial i'r gred dylanwadi ar gymaint o bobol ar draws y byd. Mae'r dystiolaeth trafodwyd yn y traethawd yma yn atgyfnerthu fod yna potensial enfawr ac er bod e ddim pob tro yn bwrpasol maent yn cyfrannu at lunio moeseg amgylcheddol positif.

¹² Simon P. James and David E. Cooper, "Buddhism And The Environment", *Contemporary Buddhism*, 8.2 (2007), 93-96 <<https://doi.org/10.1080/14639940701636075>>.

Llyfryddiaeth

Habito, Ruben L. F., "Environment Or Earth Sangha: Buddhist Perspectives On Our Global Ecological Well-Being", *Contemporary Buddhism*, 8 (2007), 131-147 <<https://doi.org/10.1080/14639940701636117>>

Holder, John J., "A Suffering (But Not Irreparable) Nature: Environmental Ethics From The Perspective Of Early Buddhism", *Contemporary Buddhism*, 8 (2007), 113-130 <<https://doi.org/10.1080/14639940701636091>>

Ikeda, Daisaku, *The Living Buddha: An Interpretive Biography* (Santa Monica: Middle Way Press, 2008), tud. 117

James, Simon P., and David E. Cooper, "Buddhism And The Environment", *Contemporary Buddhism*, 8 (2007), 93-96 <<https://doi.org/10.1080/14639940701636075>>

Jenkins, Willis J., Mary Tucker, and John Grim, *Routledge Handbook Of Religion And Ecology*, 1st edn (London: Routledge, 2017)

Kaza, Stephanie, *Hooked!* (Boston, Mass.: Shambhala, 2005), tud. 225-236

Kaza, Stephanie, "The Greening Of Buddhism: Promise And Perils", *The Oxford Handbook Of Religion And Ecology*, 2009 <<https://www-oxfordhandbooks-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/oxfordhb/9780195178722.001.0001/oxfordhb-9780195178722-e-8#oxfordhb-9780195178722-bibItem-114>> [Agor 23 Medi 2020]

Schmithausen, Lambert, "The Early Buddhist Tradition And Ecological Ethics", *Journal Of Buddhist Ethics*, 4 (1997), 1-42

Swearer, Donald K., *Buddhism And Ecology: Challenge And Promise* (Center for Respect of Life and Environment, 1998), tud. 19-22